# Nodweddion Diddorol



© Llun/Picture Nick Venti

**A** Bu Aberllefenni yn lloches i lawer o faciwîs yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Ffilmiwyd y ffilm 'Gwenoliaid' yma yn yr 1980au, gan bortreadu bywydau faciwîs o Lundain.

**B** Chwarel Aberllefenni yw un o'r chwareli hynaf sydd ar waith yng Nghymru. Bu'n gweithredu ar sail ddiwydiannol ers 1810, ac ar ei anterth cyflogai 190 o bobl. Peidiodd y cloddio yn 2002, er bod peth gwaith yn parhau ar y wyneb hyd heddiw. Mae'r felin lechi'n dal i weithio ac yn naddu llechi Cymru at ddefnydd domestig a diwydiannol. Byddai'r gloch ar ben to hen swyddfa'r chwarel yn canu ar ddechrau ac ar ddiwedd pob diwrnod gwaith.

**C** Mae gwastraff llechi ymhob man. Bernid mai llechi Aberllefenni oedd 'y gorau yng ngogledd Cymru'. Er hynny, nid oedd yr holl ddeunydd a gloddiwyd o ansawdd da, felly gollyngwyd y llechi gwastraff ar hyd llawr y dyffryn.

**D** Gan edrych ar draws y dyffryn, fe welwch ogof fawr yn ochr y mynydd. Rhoddwyd yr enw 'Alma' ar yr ogof yn lleol, ar ôl brwydr yn Rhyfel Y Crimea yn 1854.

**E** Un o'r ychydig blanhigion a all dyfu mewn amgylchiadau garw yw briweg y cerrig. Mae ei dail suddlon yn golygu y gall oroesi ar y tomenni llechi heb fawr o ddŵr. Bydd y blodau hardd i'w gweld yn ystod mis Gorffennaf.

**F** Bydd tegeirian brych y rhos i'w weld yn tyfu ar y clawdd glaswelltog yn ystod yr haf.

**G** Mae'r rhan hon o'r llwybr yn dilyn Sarn Helen, ffordd Rufeinig sy'n ymestyn oddeutu 160 milltir o Gaerfyrddin i gyffiniau Conwy.

**H** Mae'r creigiau clegyrog a'r bryniau coediog yn hafan i adar ysglyfaethus. Cewch weld yr hebog tramor, y gigfran, y boda a'r cudyll coch.

**J** Wrth i lawr cul y dyffryn lenwi â llechi, rhaid oedd cludo'r gwastraff yn uwch i fyny'r mynydd. Bu'r hen inclein hwn yn defnyddio cydbwysedd dŵr i godi wagenni llawn llechi i ben y tomenni. 'Spion Kop' oedd yr enw a roddwyd ar yr inclein, gan gyfeirio at y frwydr yn ystod rhyfel y De Affrica ar 25ain Ionawr 1900.

**K** Y tu ôl i'r adeilad llechi, fe welwch fynedfa i un o'r mwyngloddiau sydd wedi'i rhwystro. Cafodd arfau ac offer rhyfel eu storio yma yn ystod yr Ail Ryfel Byd.



# Points of Interest

**A** Aberllefenni was a sanctuary for many evacuees during the Second World War. In the 1980's a film called 'Gwenoliaid' (The Swallows) was filmed here, depicting the lives of evacuees from London.

**B** Aberllefenni Slate Quarry is one of the oldest working quarries in Wales. It operated on an industrial basis from 1810 and employed 190 people at its peak. The quarry ceased extraction in 2002, although some surface work continues today. The slate mill is still in operation and dresses Welsh slate for domestic and industrial use. The bell on the roof of the old quarry office would ring at the beginning and end of every working day.

**C** All around is slate waste. Slate from Aberllefenni was considered to be 'the best in North Wales'. However not all the material extracted was good quality, so waste slate was dumped along the valley floor.

**D** Looking across you will see a large cavern in the side of the mountain, locally known as 'Alma', named after a battle during the Crimean war in 1854.

**E** Not many plants can withstand growing in harsh conditions but the Stonecrop can. Its succulent leaves means that it can survive on the slate tips with very little water. Look out for these pretty flowers in July.

**F** In summer look out for the Heath spotted orchid, growing on the grassy bank.

**G** This section of the route follows Sarn Helen, a Roman road stretching for around 160 miles from Carmarthen to near Conwy.

**H** These craggy rocks and wooded hills are a haven for birds of prey. Look out for peregrine, raven, buzzard and kestrels.

**J** As the narrow valley floor filled up with slate it was necessary to transport the slate waste higher up the mountain. This old incline used a water balance to raise wagons loaded with slate up to the top of the tips. The name given to this incline is 'Spion Kop' referring to a battle during the Boer war that took place on the 25th January 1900.

**K** Behind the slate building you will see the blocked entrance to one of the mines. During the Second World War munitions were stored here.



© Llun/Picture Nick Venti



# Taith Gerdded Cwm Hengae

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Cwm Hengae Walk



**Dechrau:** Maes parcio coedwig CNC. Trowch i'r dde yn union cyn arwydd pentref Aberllefenni
**Cyfeirnod Grid:** SH 769 092
**Pellter:** 7.4 km – 4.6 milltir
**Gradd:** Cymedrol
**Tirwedd:** Ffordd tarmac a thraciau glaswelltog. Gall y llwybr fod yn fwdlyd gyda gordyfiant drosto mewn mannau
**Mapiau:** Arolwg Ordnans Explorer – OL 23
**Lluniaeth:** Cyfleusterau agosaf: Canolfan Grefft Corris, Caffi Institiwt Corris, Amgueddfa Rheilffordd Corris, Tŷ Bynciau Braich Goch, Tafarn y Chwarelwr a chanolfan ymwelwyr Tŷ Te Cadair, Tal-y-Llyn

**Start:** NRW forest car park. Turn R just before Aberllefenni village sign
**Grid Reference:** SH 769 092
**Distance:** 7.4 km – 4.6 miles
**Grade:** Moderate
**Terrain:** Tarmac road and grassy tracks. Path can be muddy and overgrown in places
**Maps:** OS Explorer – OL 23
**Refreshments:** Nearest facilities: Corris Craft Centre, Corris Institute Café, Corris Railway Museum, Braich Goch bunkhouse the Slaters Arms pub and Tŷ Te Cadair visitor centre, Tal-y-Llyn



# Taith Cwm Hengae Walk




1 O'r maes parcio, cerddwch nôl i fyny i'r ffordd a throi i'r dde gan fynd ymlaen am 600m i fynd heibio Chwarel Wincilate ar y dde a rhes o dai teras ar y chwith A. Yn fuan, trowch i'r chwith, lle gwelwch gofeb olwyn llechi nesaf at hen adeilad chwarel B, i fynd trwy gât mochyn a dilyn y llwybr i fyny i mewn i'r chwarel C. Arhoswch ar y llwybr i fynd heibio hen adfail ar y dde. Bydd gennych olygfa dda o'r chwarel o'r fan hon D. Ewch ymlaen nes daw'r domen llechi E i ben ac yna i lawr y llethr ar hyd llwybr glaswelltog i fynd trwy gât mochyn ger bwthyn Bluemaris.

2 Dilynwch y trac i fyny F. Yn union cyn cyrraedd giât, trowch i'r dde i lawr grisiau, ewch dros gamfa yn y wal ar y chwith a cherdded yn syth ymlaen gyda'r ffens ar y chwith i chi. Arhoswch uwchben y wal a'r porth sy'n eich wynebu, ac ewch ymlaen rhwng y ffens ar y chwith a'r ffens llechi/wal gerrig ar y dde. Pan gyrhaeddwch gornel y ffens, ewch ymlaen dros bont droed fach. Trowch i'r chwith yn syth i fyny'r llethr y tu ôl i'r wal gerrig ac i'r dde rhwng y ffens a'r wal G. Ewch ymlaen trwy gât mochyn. Ymlaen heibio tai allan ar y chwith cyn troi i'r chwith i ddilyn llwybr ag arwyddion i fyny'r llethr, gan anwybyddu'r trac sy'n mynd i lawr. Croeswch bont droed fach cyn mynd ymlaen ar hyd y llwybr sy'n mynd o amgylch cefn tŷ Hengae.

3 Ewch drwy'r gât mochyn, gan fynd heibio adfail ar y dde i gyrraedd gât mochyn arall, ac ewch yn eich blaen i fyny'r llethr. Croeswch bont droed fach. Ewch i'r dde trwy goed conwydd cyn croesi camfa a phont droed i ddilyn llwybr i fyny gyda wal ar y dde, trwy giât ac wedyn yn union i'r dde trwy giât arall cyn cerdded i fyny at giât arall a chamfa. Ymlaen trwy giât arall, ar hyd trac rhwng coed a ffens. Pan ddaw'r ffens i ben, trowch i'r dde i lawr llethr ac yna i'r chwith i groesi pont droed. Cerddwch i'r dde ac i fyny trwy giât ar waelod y clawdd, i fyny'r grisiau i'r ffordd.

4 Trowch i'r dde a dilyn y ffordd i lawr am oddeutu 2.6km H, J a K i gyrraedd cyffordd.

5 Trowch i'r dde heibio pyllau dŵr i Wincilate ac ewch yn ôl i'r maes parcio.

1 From the car-park walk back up to the road and turn *R* for 600m to pass Wincilate Slate Quarry on the *R* and a row of terraced houses on the *L* A. Soon fork *L* where you see a slate wheel monument next to an old quarry building B to go through a kissing *G* and follow the path up into the quarry C. Keep to the path to pass an old ruin on your *R*. You have a good view of the quarry here D. Continue to the end of the slate tip E then down the bank along a grassy path to go through a kissing *G* next to Bluemaris cottage.

2 Follow the track uphill F. Just before a *G*, turn *R* down steps, over wall-stile on *L* and walk directly ahead with the fence on your *L*. Stay above the facing stone wall and gateway, and continue between fence on *L* and slate fence/stone wall on *R*. When you reach the corner of the fence continue to cross a small *FB*. Turn immediately *L* up bank behind stone wall and *R* between fence and wall G. Continue through a kissing *G*. On past some outbuildings on your *L* before forking *L* to follow a signed path up the bank, ignoring the track going down. Cross a small *FB* before continuing on the path around the back of Hengae house.

3 Go through a kissing *G*, passing a ruin on your *R* to reach another kissing *G* and continue uphill. Cross a small *FB*. Go *R* through some conifer trees before crossing a *S* and *FB* to follow a path uphill with wall on *R*, through a *G* and then immediately *R* through another *G* before walking up to another *G* and *S*. On through another *G*, along track between trees and fence. At end of the fence, turn *R* down bank and then *L* to cross *FB*. Walk *R* and up through a *G* at the bottom of the bank, up the steps onto the road.

4 Turn *R* here and follow the road down for approximately 2.6km H, J and K to reach a junction.

5 Turn *R* past ponds to Wincilate and retrace your steps back to the car park.





Briweg y Cerrig/Stonecrop

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2014 Arolwg Ordnans 100019741.2014

© Crown copyright and database rights 2014 Ordnance Survey 100019741.2014

© Lluniau/Pictures Jeremy Moore